CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 24 MEHEFIN 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mansbridge(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Cowan, griffiths, Lomax, Robson, Jones a/ac Clarke |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C Smith, J Rosser, G John, J Ward, A Higgs, Mrs K Thomas, R Grigg, J Jones

1 : DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb oddi.

3 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

4 : ADRODDIAD AR GYFER Y CYFNOD 1 MAWRTH – 31 MAWRTH 2016 GAN ARCHIFYDD MORGANNWG

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar waith a chyflawniadau'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2016 i 31 Mai 2016.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Dywedodd yr Aelodau fod yr arddangosfa yn Ysbyty Yr Eglwys Newydd, sydd wedi integreiddio gwahanol elusennau, wedi bod yn llwyddiannus iawn a gofynnon nhw a fyddai cartref sefydlog i'r arddangosfa.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai Stori Caerdydd yn ystyried hyn a rhoddir diweddariad ar hyn i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor.
- Dywedodd yr Aelodau fod Archifau Morgannwg wedi'u cynnwys yn yr erthygl 'the Hidden Gems of Cardiff' ar Wales Online.

- Llongyfarchodd yr Aelodau Archifydd Morgannwg am naws yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn addas iawn yn eu barn nhw.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

5 : SEFYLLFA ALLDRO DERFYNOL A FFURFLEN DDRAFFT SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU AR GYFER 2015/2016

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad yn cyflwyno trosolwg byr o'r canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn, ynghyd ag alldro drafft Swyddfa Archwilio Cymru nas

archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Roedd angen cwblhau Adran 3 yr alldro, 'Cymeradwyaeth gan y Corff', ond cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft nas archwiliwyd i gyfarfod y Pwyllgor er gwybodaeth yn unig.

Roed Cydbwyllgor Archifau Morgannwg wedi cymeradwyo cyllideb arfaethedig o £681,690 ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/2016 yn flaenorol, i gael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod lleol sy'n aelodau. Wedyn, cytunwyd ar y gyllideb arfaethedig a chafodd ei chadarnhau gan bob awdurdod lleol sy'n aelod.

Cydbwyswyd y sefyllfa wariant net terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl trosglwyddo £4,058 i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Yn unol ag Adroddiad Cyllideb 2016/17, cytunwyd y cedwir tanwariant yn y dyfodol oddi mewn i'r gwasanaeth i sicrhau bod lefel addas o gronfeydd wrth gefn yn cael eu dwyn ymlaen. Dyma gyferbyniad â'r dull blaenorol o dynnu lawr £100,000 y flwyddyn i ariannu costau rhedeg.

Cafwyd arian ei arbed ar safleoedd, trafnidiaeth a gwasanaethau cymorth ond roedd costau cyflogeion, cyflenwadau a gwasanaethau a thaliadau trydydd parti i gyd yn fwy na'r gyllideb. Mae amrywiaethau sylweddol yn cynnwys biliau gwasanaethu sy'n costio cryn dipyn yn llai na'r arian a neilltuwyd ar eu cyfer ac roedd incwm a gwariant cadwraeth yn fwy na ddisgwyliwyd. Gwrthbwyswyd costau ychwanegol trwy leihau costau cymorth gan gynnwys Cyfrifeg Gwasanaethau, TGCh ac ailwefru cerbydau. Roedd incwm o £43,065 hefyd gan grantiau na neilltuwyd arian ar ei gyfer yn 2015/16.

Gyda golwg ar Alldro Swyddfa Archwilio Cymru, dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw'r Alldro Blynyddol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 wedi'i archwilio ar yr adeg hon.  Nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi dechrau archwilio'r cyfrifon eto. Yn unol â Rheoliad 2005, bydd yr Alldro Blynyddol ar gael i'r cyhoedd ei archwilio am 20 diwrnod gwaith llawn o ddydd Llun 27 Mehefin 2016 i ddydd Gwener 22 Gorffennaf 2016.

I fodloni gofyniad y Cyfrifon a Rheoliadau Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd) mae angen i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Alldro Blynyddol erbyn 30 Medi yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Os nad yw'r cyfrifon wedi'u cwblhau erbyn yr amser hwn, mae'n rhaid cymeradwyo'r cyfrifon cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.  Unwaith y mae'r archwiliad wedi'i gwblhau ac ar ôl i Swyddfa Archwilio Cymru lofnodi'r Alldro Blynyddol, byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'r aelodau ei gymeradwyo ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn neu adroddiad wedi'u cyflwyno, rhoi neu wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Dywedodd yr Aelodau fod costau defnyddiau traul yn codi pan fo grantiau yn dod i mewn ar gyfer projectau sy'n cael eu gwneud gan yr Archifau.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn gywir, mae'r gyllideb yn cael ei gosod cyn iddynt wybod ar gyfer beth y caiff y grantiau eu defnyddio felly roedd yn bosibl addasu llinellau penodol mewn blwyddyn ond nid y llinell waelod; nodwyd y dylai'r wybodaeth fod mor glir â phosibl i'r cyhoedd ac y gellid ychwanegu atodiad i ddangos amrywiaethau – yn enwedig ar gyfer Grantiau mwy.
- Nododd yr Aelodau gydbwysedd y cronfeydd wrth gefn a gofynnon nhw a oedd yn bosibl ddefnyddio hwn ar gyfer y posibilrwydd o ddileu swyddi. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai angen ceisio cytundeb gan bob awdurdod sy'n aelod i wneud hyn.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer 2015/16.
2. Nodi Alldro Blynyddol drafft Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i atodi ar gyfer 2015/16.

6 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Hysbyswyd yr Aelodau o ddyddiadau'r cyfarfodydd sydd i ddod fel a ganlyn:
Medi 16, 2016
Rhagfyr 16, 2016
Mawrth 17, 2017
Mehefin 16, 2017